# Goruchwyliwr Cyflenwi

**Cyfeirnod y Swydd:** YYGC00340W1RDE
**Lleoliad:** Ysgol Glan Clwyd
**Cyflog:** Gradd 5 - £19,709 - £21,452
**Oriau:** 32.50 awr yr wythnos, Tymor Ysgol yn Unig + 5 HMS
**Math o gytundeb:** Swydd Parhaol i ddechrau cyn gynted a phosib
Swydd Allanol

Rydym yn awyddus i benodi Goruchwyliwr Cyflenwi i gynnal sefydlogrwydd a dilyniant i'n disgyblion mewn gwersi sy'n cael eu heffeithio gan absenoldeb byrdymor athrawon. Bydd yr unigolyn llwyddiannus yn ymroddedig i hawl pob disgybl i gyrraedd ei holl botensial mewn awyrgylch positif a chefnogol.

Rydym yn falch o'n cymuned a'n disgyblion yma yn Ysgol Glan Clwyd, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog ac rydym yn chwilio am unigolyn sy'n rhannu ein disgwyliadau uchel o bob disgybl.  Mae Ysgol Glan Clwyd yn ysgol hapus a gofalgar ac mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno â'r tîm.

Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac yn dangos ymrwymiad amlwg tuag at weithio mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Am sgwrs anffurfiol cysylltwch â'r Dirprwy Bennaeth, Mrs Eirian Williams ar 01745 582611.

**Dyddiad Cau: Dydd Mercher 10/07/24**

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk/.  Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch ā Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk
**Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried**.  Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais.  Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

***This Advert is for a Cover Supervisor at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.***

**Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg.  Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg.  Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.**